

Gan ddefnyddio'r proffil disgybl a roddir, nodwch sut y gellid cwrdd ag agweddau penodol o ddatblygiad cyfannol y plentyn mewn lleoliad addysgol. Defnyddiwch gyfeiriadau at ddamcaniaethau perthnasol, ymchwil ac enghreifftiau o arfer rhagorol fel sail i hyn.

Bwriad yr aseiniad hwn yw defnyddio proffil ddisgybl Ella i archwilio a dod o hyd i wahanol ffurfiau a gallwn helpu Ella ddatblygu a hefyd byddwn yn archwilio sut i gwrdd â 'i anghenion trwy ddefnyddio enghreifftiau o brofiadau pontio a damcaniaethau gan arbenigwyr. Mae yn bwysig iawn fod athrawon yn deall datblygiad y plentyn oherwydd mae angen i'r athrawon defnyddio'r ddealltwriaeth honno i wneud asesiadau am y plentyn, er mwyn i'r plentyn cael cefnogaeth a gall yr athro hefyd creu cynllun ar sut i wella a sut gall y plentyn ddatblygu. (Davies, T. Fagus, 2019) Yn ôl 'Foundation education' mae'r dull cyfannol o ddatblygu yn ddull sydd yn ffocysu ar bwysleisio pwysigrwydd lles, emosiynol, corfforol a seicolegol plant yn enwedig yn ystod plentyndod cynnar (Foundation Education, 2018). Pan mae o yn dod i asesu a chynllunio anghenion plentyn fel Ella mai'r dull cyfannol yn bwysig iawn gan mae o yn caniatáu'r athrawon i asesu'r plentyn fel unigolyn. Mae yn hanfodol fod yr athrawon efo dealltwriaeth dda o ddatblygiad plentyn er mwyn iddyn nhw allu sicrhau a gallent helpu'r plant a gwneud yn siŵr fod yn fesurau yn lle yn y gwersi i helpu a chynorthwyo datblygiad pob un plentyn.

Mae datblygiad gwybyddol yn golygu sut mae plant yn meddwl, archwilio a chyfrifo pethau. Datblygiad gwybyddol yw'r proses adeiladaeth meddwl, sydd yn cynnwys cofio, datrys problemau, gwneud penderfyniadau o blentyndod i oedolaeth. Mae pethau mae plant yn gweld, clywed a meddwl naillai yn cael eu cofio am oes neu yn cael eu hanghofio yn awr.

Mae gan bob un person cof tymor byr a chof tymor hir. Pryd mae unigolyn yn cymryd gwybodaeth i mewn mae'r wybodaeth yn mynd yn syth i'r cof tymor byr os mae'r wybodaeth yn cael ei phrosesu a'i strwythuro ac mae'r wybodaeth yn gwneud synnwyr i'r unigolyn bydd y wybodaeth yn cael eu symud i'r cof tymor hir. Er mwyn i'r wybodaeth aros yn y cof tymor hir mae angen ailadrodd y wybodaeth yn ôl J.B Watson. Yn ôl J.B Watson mae angen ailadrodd a defnyddio'r wybodaeth yn aml. Heb ailadrodd mae'r wybodaeth yn cael eu hanghofio. Mae pob adalw yn gosod y dysgu/ gwybodaeth yn gadarnach i'r cof tymor hir. Mae Ella yn gallu cofio rhannau o stori ond nid yw Ella yn gallu dweud stori fer llawn. Mae hyn yn dangos fod Ella ddim ond yn cofio rhannau ac dydy hi ddim yn gallu ailadrodd holl stori. Er mwyn helpu Ella cofio'r stori lawn gallwn gyflwyno'r deunydd yn araf er mwyn i Ella cael amser i gymryd popeth i mewn, gallwn adael tawelwch ar ôl dedfryd bwysig, gallwn wneud gweithgareddau sy'n eu hannog i brosesu'r deunydd newydd a hefyd gallwn ganiatáu plant i ddefnyddio ac ailstrwythuro'r wybodaeth yn bersonol. Mae angen ailadrodd y stori i Ella ar ôl 10 faned, 1 wythnos, 1 mis a hanner blwyddyn yn ôl J.B Watson, bydd yr ailadrodd hyn golygu gall Ella ailadrodd yr holl stori. Wnaeth Jerome Bruner yn 1960 creu cwricwlwm troellog, y cwricwlwm troellog yw dynesiad at addysg sy'n golygu ailymweld a'r un pynciau addysgol ar draws addysg y plentyn, mae hyn yn dangos fod Bruner yn meddwl fod angen ailadrodd ac ailymweld a'r un pethau ar draws addysg gyfan y plentyn. (Drew, C. 2021)

Wnaeth Jean Piaget creu cyfnodau o ddatblygiad gwybyddol. Yn ôl Piaget mae Ella ar gam cynweithredol. Mae Ella ar gam hyn gan fod hi yn 4 mlwydd oed. Un o'r prif nodweddion a newidiadau datblygiadol yw bod plant yn ei chael hi'n anodd gweld pethau o safbwynt eraill. (OER Services) Trwy edrych ar broffil Ella gallwn weld fod Ella ddim yn dangos gofal a pharch tuag at eraill yn gyson mae hyn yn dangos fod Ella ddim yn gweld sut mae pethau mae hi yn dweud ar ffordd mae Ella yn trin pobl yn effeithio pobl eraill. Mae Ella yn ei chael hi'n anodd deall sut y gall penderfyniadau effeithio arni hi ei hun ac eraill. Er mwyn i Ella symud ymlaen i'r cam nesaf ar gyfnodau o ddatblygiad gwybyddol mae angen i Ella ddatblygu ei sgiliau er mwyn gwella ei hun. Un peth mae angen i Ella gallu gwneud yw dechrau deall y cysyniad o gadwraeth, yn ôl proffil Ella gallwn weld fod Ella ddim o hyd yn cychwyn sgwrs ond bydd yn ymateb, weithiau bydd hi'n siarad mewn brawddegau o bump i chwe gair. Er mwyn i Ella symud ymlaen i'r cam nesaf mae angen i Ella ddatblygu eu sgiliau siarad a dechrau sgwrs, er mwyn annog Ella i wneud hyn gallwn ofyn fwy o gwestiynau i Ella i hybu hi siarad, hefyd gallwn ofyn Ella siarad am bethau mae hi yn hoffi gwneud. Un feirniadaeth o Piget yw'r cwestiwn o ydy'r camau yn ddirweddol? Mae gwell gan Vygotsky a Bruner ddim siarad am gyfnodau o gwbl, mae gwell ganddyn nhw weld datblygiad fel proses barhaol. Dywedodd Dansen 1994, fod dim ond un-trydydd o oedolion sydd yn cyrraedd y cam gweithredol ffurfiol. (Mc Leod, S.A, 2020).

Wnaeth Lev Vygotsky datblygu parth datblygiad procsimol, mae'r parth datblygiad procsimol yn helpu plant sydd yn cael trafferth yn cwblhau tasg neu yn cael trafferth yn dysgu rhywbeth newydd. Dywedodd Vygotsky fod angen person mwy gwybodus ar blant i helpu nhw os maent yn cael trafferth. (Mc Leod, S.A, 2019). Yn broffil Ella gallwn weld fod Ella ddim yn gallu pwyntio at ddeg gwrthrych a'u cyfri yn gywir, er mwyn i Ella gallu gwneud y dasg hon mae angen person mwy gwybodus e.e.. athro i helpu hi. Mae angen i Ella

ymarfer efo'r person mwy gwybodus, mae angen i'r person mwy gwybodus esbonio i Ella beth sydd angen gwneud ac mae angen ymarfer efo Ella nes mae Ella yn gallu gwneud y dasg ar eu hun. Yn ôl Vegotsky mae gwaith sydd yn rhy galed yn rhwystro'r plentyn ac mae gwaith sydd yn hawdd yn diflasu'r plentyn. Gall y person mwy gwybodus bod yn unrhyw un sydd yn fwy gwybodus nag Ella felly ffrind, athro neu hyd yn oed hyfforddwr 1-1. Gall Ella efallai cael hyfforddwr 1-1 i fod y person mwyaf gwybodus, gall hyfforddwr 1-1 helpu Ella llawer gan fydd Ella yn cael eu hyfforddi gyda phob tasg y mae hi ond dydyn ni ddim eisiau Ella i ddod yn gorddibynol ar berson mwy gwybodus mae angen i Ella fod yn annibynnol. Yn ysgol Lon Las roedd gan yr athrawon proffil ddisgybl am bob un ddiysgybl er mwyn i'r athro/ athrawon casglu gwybodaeth am bob un plentyn, roedd cael proffil yn helpu athrawon adnabod diddordebau, gwendidiau, ofanau a hoff bethau'r plentyn. Bydd y staff yn galluogi Ella i ddeall pa mor dda y mae eu gwaith trwy camol hi a hefyd wobrwyo hi pan mae hi yn gwella'r neu ddysgu/ datblygiad gwybyddol trwy ddefnyddio tystysgrifau a sticeri.

Datblygiad Cymdeithasol yw'r newid dros amser yn ddealltwriaeth yr unigolyn o bobl eraill, eu hagweddu at bobl eraill a'u hymddygiad tuag at bobl eraill. Yn 1932 wnaeth Mildrid Partons ymchwilio datblygiad chwarae cymdeithasol wnaeth hi ddarganfod fod datblygiad plentyn o'i sgiliau cymdeithasol yn cael ei adlewyrchu yn y ffordd y maen nhw'n chwarae. (Markham Stouffville Hospital, 2013) Wnaeth Mildrid Partons creu cyfnodau cymdeithasol o chwarae. Yn hyn mae yna chwe chynnod o chwarae gwahanol. (Brookings School District) Wrth edrych ar broffil Ella gallwn weld fod Ella ar gyfnod chwarae unig, dyma le mae plentyn yn dechrau chwarae ar ben ei hun, mae'r plentyn yn y cyfnod hwn ddim yn sylwi'r plant arall sydd o gwmpas nhw yn eistedd neu chwarae yn agos. Yn broffil Ella gwelwn fod Ella yn chwarae ar ben ei hun ac nid yw'n dangos ymwybyddiaeth o gyfoedion, mae Ella hefyd ar ardegau yn amharod i rannu adnoddau yn ystod gweithgareddau chwarae gydag eraill. Er mwyn i Ella symud ymlaen+ i'r cyfnod nesaf sef chwarae gwyliwr mae angen i Ella cael diddordeb yn gwylio plant eraill yn chwarae. Er mwyn helpu Ella symud ymlaen i'r cam nesaf gallwn ddechrau gwneud gwaith tîm yn y dosbarth i hybu Ella i wyllo ac ymuno efo plant eraill.

Mae gwaith Bronfenbrenner ar systemau ecolegol yn sail i ffordd o feddwl am blentynod fel cydweithrediad o systemau nid mater o ystyried datblygiad yr unigolyn o fewn un maes ydyw. Awgrymodd Bronfenbrenner fod dysgu yn weithgaredd cymdeithasol. Ar y system ecolegol mae'r system ficro agosaf i'r plentyn, dyma'r pethau sydd yn cael y dylanwad fwyaf ar y plentyn sef y rhieni, ffrindiau, y cartref, teulu agos ar ysgol. Mae'r perthnasau yn system ficro yn effeithio'r plant gan mae'r plant yn cael ei dylanwadu gan y bobl yn yr amgylchedd yna, mae hefyd yn gallu newid credoau a gweithredoedd pobl eraill (Guy-Evans, O. 2020) Gallwn weld o'n proffil Ella fod Ella weithiau yn dangos hoffer tuag at blant eraill ac at oedolion ac mae hi yn mwynhau cael plant arall i ofalu amdani, dangosa hyn fod Ella edrych am ofalwr. Mae gwaith Bandura yn dangos i ni fod Ella yn edrych am rywun i ddysgu hi a rhoi esiampl Iddi hi.

Yn ôl Albert Bandura mae angen i ofalwyr darparu enghreifftiau da i'r plant ddilyn. Yn ôl theori Bandura mae ymddygiad, ffactorau amgylcheddol a ffactorau personol yn cysylltu efo'i gilydd. Yn ôl Bandura mae plant yn dysgu trwy wyllo pobl eraill. (Kurt, S. 2020) Yn ôl cyfnodau cymdeithasol chwarae Mildrid Partons gwelwn fod plant yn dysgu sut i chwarae trwy wyllo plant arall felly gallwn ddweud fod Bandura a Mildrid Partons yn cytuno fod angen person mwy gwybodus sydd yn gwybod beth maen nhw yn gwneud, gallwn hefyd dweud fod Vegotsky yn dod i mewn fan hyn gyda'r parth ddatblygiad procsimol gan fod angen y person mwy gwybodus i ddysgu o ac i roi cymorth pan mae pethau yn galed. Yn ôl ysgol lon las mai pethau a gallwn wneud er mwyn datblygu sgiliau cymdeithasol gallwn weithio fel grŵp neu bâr, creu cornelu chwarae rôl, cael amser cylch a chydweithio efo'n gilydd.

Mae datblygiad emosiynol yn cyforio at y gallu i adnabod, mynegi a rheoli teimladau ar wahanol gyfnodau yn fywyd a hefyd i gael empathi tuag at deimladau pobl arall. Dywedodd John Bowlby yn ei theori o atodiadau fod plant yn dod i mewn i'r byd yn barod i ffurfio ymlyniadau gyda phobl eiral, oherwydd bydd hyn yn helpu nhw i oroesi yn y byd. Wnaeth Bowlby credu fod y cysylltiad cynharaf a ffurfiwyd gan y plant gyda'u gofalwyr yn cael effaith enfawr ar y plentyn sydd yn parhau trwy gydol eu hoes. Ond dywedodd Bowlby fod y perthynas efo'r fam yn wahanol i berthnasoedd eraill. Mae'r gofalwr sylfaenol e.e.. y fam yn ganol y theori o atodiadau, gan y gofalwr sylfaenol yw'r person sydd ar gael ac yn ymatebol i beth mae'r plentyn eisiau mae hyn yn arwain at gael ymdeimlad o ddiogelwch, mae Mary Ainsworth yn cytuno efo hyn. (Cherry, K 2019) Mae hyn yn esbonio pam mae Ella ddim yn hapus i wahanu oddi wrth ei fam pob bore, mae hyn hefyd yn esbonio pam mae Ella yn hoffi cael pobl i ofalu amdani. Mae Ella yn edrych am rywun i gefnogi hi a gofalu hi yn yr ysgol.

Mae Bronfenbrenner, Ainsworth a Bowlby yn credu fod y plentyn yn cael ymlyniad emosiynol efo'r fam neu'r gofalwr sylfaenol gan fod y person yna mwyaf agos i'r plentyn. Yn system ecolegol Bronfenbrenner mae'r system ficro yn agosaf i'r plentyn mae hyn yn meddwl fod y bobl yn y system ficro yn cael y dylanwad fwyaf ar y plentyn. Pam mae Ella yn ysgol mae hi yn edrych am ofalwr ac yn edrych am berson i amddiffyn hi o'r byd. Mae angen i ni wneud yn siŵr fod gan Ella ffrindiau a phobl i fynd i os mae hi yn teimlo yn ofnus, drist neu yn ansicr.

Yn ôl Erik Erikson mae personoliaeth yn datblygu yn ffordd rhag terfynedig trwy wyth cam o ddatblygiad seicogymdeithasol sydd o blentyndod i oedolaeth. Yn pob un cam mae'r person yn mynd i gael profiad o argyfwng seicogymdeithasol, gall y rhain cael dylanwad negyddol neu gadarnhaol ar ddatblygiad personoliaeth y person. Yn ôl cyfnodau datblygiad seicogymdeithasol Erikson gwelwn dylai fod Ella oherwydd ei bod hi yn bedwar blwydd oed yn cael mater o arweiniad yn erbyn euogrwydd. (Cherry, K. 2019). Pe bai oedd Ella wedi cwblhau'r ddwy gam diwethaf yn llwyddiannus, dylai Ella nawr gallu synhwyro fod y byd yn lle a gallwn ddibynnu arno ac yna dylai Ella gweithredu'n annibynnol. Dylai fod Ella yn gallu mynnu rheolaeth a phŵer dros yr amgylchedd trwy Gymryd menter trwy gynllunio gweithgareddau, cyflawni tasgau ac wynebu heriau. Gallwn weld trwy edrych ar broffil Ella fod ddim yn y lle dylai hi fod yn. Ni all drafod atebion posibl i unrhyw wrthdaro heb ymyrraeth oedolyn, dangosa hyn fod Ella ddim yn gallu wynebu heriau ar ei hun mae angen iddi hi gael cymorth. Er mwyn i ni helpu Ella symud ymlaen i'r cam nesaf gallwn weithio gydag Ella ar sgwrsio, gallwn ofyn cwestiynau iddi hi a hefyd gofyn am farn Ella. Gallwn drafod holl Degan Ella neu hoff raglen teledu Ella, gallwn hefyd gwneud hyn fel rhan o waith grŵp i gael Ella yn fwy cyfforddus yn siarad gyda phobl eraill. Byddwn yn gwneud yn siŵr i wobrwyo a camol Ella am ei ymdrech.

I grynhoi mae llawer o bethau a gallwn wneud i helpu Ella ddatblygu. Bydd Ella yn datblygu yn araf ac yn amser ei hun ond gallwn wneud llawer o bethau i wneud ysgol yn lle hwylus a lle llawn cyflawniad Ella. Gallwn ddechrau gwneud fwy o waith efo Ella yn grŵp neu fel 1-1 er mwyn i Ella ddod yn fwy cyfforddus efo fwy o bobl, byddwn hefyd yn gwneud llawer o ymdrech i greu bond efo Ella fel ei bod hi yn teimlo yn hapus a ddiogel.

Cyfeirnod

Brookings School District. *Stages of play*. Ar gael at <https://www.brookings.k12.sd.us/Page/1144> (Cyrchwyd 8fed o Ionawr 2022)

Cherry, K. 2019 *Understanding initiative vs guilt*. Ar gael at <https://www.verywellmind.com/initiative-versus-guilt-2795737> (Cyrchwyd 11eg o Ionawr 2020)

Cherry, K. 2019. *What is attachment theory?* Ar gael at <https://www.verywellmind.com/what-is-attachment-theory-2795337> (Cyrchwyd 10fed o Ionawr 2022)

Drew, C, PhD (2021) *Helpful Professor. Bruner's spiral curriculum- The 3 Key principles*. Ar gael at <https://helpfulprofessor.com/spiral-curriculum/> (Cyrchwyd 5ed o Ionawr 2022)

Davies, T. (2019). Fagus. *Why is it so important for teachers to understand child development?*. Ar gael at <https://www.fagus.org.uk/why-is-it-importance-for-teachers-to-understand-the-child-development-stages-a-fagus-helping-hand/> (Cyrchwyd 5ed o Ionawr 2022)

Foundation education, (2018) *How can I support the holistic development of children*. Ar gael at <https://www.foundationeducation.edu.au/articles/2018/03/support-holistic-development-children-early-childhood-education> (Cyrchwyd 5ed o Ionawr 2022)

Guy-Evans, O. 2020. Simply Psychology. *Bronfenbrenner's ecological system theory*. Ar gael at <https://www.simplypsychology.org/Bronfenbrenner.html> (Cyrchwyd 8fed o Ionawr 2022)

Kurt, S. (2020) *Social learning theory: Albert Bandura*. Ar gael at <https://educationaltechnology.net/social-learning-theory-albert-bandura/> (Cyrchwyd 10fed o Ionawr 2022)

Markham Stouffville Hospital. (2013) *Stages of development of social play*. Ar gael at https://childdevelopmentprograms.ca/elearning-modules/the-power-of-play/story_content/external_files/Developmental%20Milestones%20of%20Social%20Play%20and%20Sharing.pdf (Cyrchwyd 7fed o Ionawr 2022)

McLeod, S, A, (2018). Simple psychology. *Jean piaget's theory of cognitive development*. Ar gael at <https://www.simplypsychology.org/piaget.html> (Cyrchwyd 11eg o Ionawr 2020)

Mc Lead, S,A (2019).Simply Psychology. *What is the zone of proximal development?* Ar gael at <https://www.simplypsychology.org/Zone-of-Proximal-Development.html> (Cyrchwyd 7fed o Ionawr 2022)

OER Services. *Cognitive development: the theory of Jean Piaget*. Ar gael at <https://courses.lumenlearning.com/atd-hostos-childdevelopment/chapter/cognitive-development-the-theory-of-jean-piaget/> (Cyrchwyd 7fed o Ionawr 2022)

